

### Mathemateg

Byddwn yn gweithredu awr o waith rhifedd yn ddyddiol drwy roi ffocws i strategaethau mathemateg pen, sgiliau ymchwiliol mathemategol a datrys problemau mewn sefyllfaoedd bywyd bob dydd.

Hoffem petaech yn sicrhau fod eich plentyn yn cwblhau ei waith/gwaith cartref mewn pensil yn hytrach nag inc.

### Iaith

Byddwn yn canolbwyntio ar y ffurfiau canlynol drwy ddilyn camau ieithyddol.

- Portread
- Llythyr Ffurfiol
- Cyfarwyddiadau
- Taflen Wybodaeth
- Erthygl Papur Newydd
- Barddoniaeth
- Gweithgareddau llafar

### Darllen

Byddwn yn datblygu sgiliau darllen drwy weithgareddau ieithyddol amrywiol. Mae hyn yn targedu amryw o sgiliau darllen ac yn gwella eu dealltwriaeth o destun.

Ein bwriad yw meithrin a chynnal diddordeb y plant mewn darllen a hyrwyddo eu datblygiad fel darllenwyr annibynnol.

### Gwyddoniaeth

Yn ystod y tymor byddwn yn rhoi ffocws ar:-

- Gynefinoedd a grwpiau anifeiliaid
- Gadwynau bwyd
- Didoli anifeiliaid drwy ddefnyddio allweddi
- Effaith llygredd ar fywyd gwyllt a chadwynau bwyd
- Sain

### Addysg Gorfforol

Yn ystod y tymor byddwn yn canolbwyntio ar:-

- Teithiau Cerdded
- Cyfeiriannu
- Datrys Problemau
- Hyfforddiant Beicio i flwyddyn 4

Gofynnwn i bob plentyn fod â dillad ac esgidiau addas ar gyfer y gwersi. Bydd pob dosbarth yn cael ei gwersi ar **Ddydd Iau**.

### Gwaith Cartref

Bydd yn cael ei osod ar ddydd Gwener a dylid ei ddychwelyd erbyn y dydd Mercher canlynol.

Bydd llyfrau i'w darllen gartref yn cael eu gyrru adref yn wythnosol ar ddydd Gwener.

Hoffem petaech yn arwyddo'r cofnod darllen yn rheolaidd.

## FY MILTIR SGWÂR

Gwybodaeth i Rieni

Blynnyddoedd 3 & 4



### Daeryddiaeth

Sut un ydi'r olygfa drwy'r ffenestr?  
Sut mae ein stryd ni wedi newid?  
Pontydd Enwog y Byd

### Hanes

Sut le oedd Llanfairpwll yn yr 19eg ganrif?  
Pont Menai a Britannia

### Addysg Grefyddol & Cerddoriaeth

Sut mae elusennau yn helpu eraill?

### Celf

Gwaith ar yr artist  
Mary Lloyd Jones

### Dylunio a Thechnoleg

Animeiddio - defnyddio TGCh i dylunio a chreu cartŵn

Dylunio ac adeiladu Pontydd

### Technoleg Gwybodaeth

Defnyddio amryw o raglenni er mwyn diwallu gofynion y Cwricwlwm.

### Sut allwch chi helpu eich plentyn?

Darllen a deall ystod o ffynonellau gwahanol a diddorol, e.e. llyfrau amrywiol, arwyddion ffordd, papurau newydd, cylchgronau a gwefannau addas.

Ymarfer tablau llusci, gweithio ar strategaethau adio a tynnu yn y pen, trin arian mewn bywyd bob dydd ac atgyfnerthu gwybodaeth o amser drwy gyfeirio at gloiciau digidol ac analog yn y byd o'n cwmpas.

### Ymweliadau

Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei ddosbarthu yn ystod y tymor.